**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL CYLLID**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS SO29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru ("y Senedd") os yw un o filiau Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Cyllid ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2020. Mae'r Bil i'w weld yma: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0114/20114.pdf.

## Amcan(ion) Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi yw darparu deddfwriaeth mewn cysylltiad ag ystod eang o bolisïau a gyflwynwyd drwy'r Gyllideb, yn benodol ym meysydd adnewyddu trethi blynyddol, cyflawni cynigion newydd yn ymwneud â threth, a chynnal y gwaith o weinyddu'r system dreth.

## Crynodeb o'r Bil

4. Trysorlys EM sy'n noddi'r Bil.

5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â materion megis codi tâl, y gyfradd dreth, rhyddhad, a gofynion adrodd ar gyfer:

   - Rhan 1: Treth Incwm, Treth Gorfforaeth a Threth ar Enillion Cyfalaf
   - Rhan 2: Gwasanaethau Treth Digidol
   - Rhan 3: Trethi Eraill (gan gynnwys trethi amgylcheddol)
   - Rhan 4: Amrywiol (gan gynnwys dyledion CThEM)

## Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae'r darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd y Senedd i'w gweld yn y cymal sy'n ymwneud â chodi tâl am ddyrannu lwfansau o dan y cynllun masnachu allyriadau (Cymal 93 yn y Bil adeg ei gyflwyno).

7. Mae cymal 93(1) yn caniatáu i Drysorlys EM osod taliadau drwy wneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer dyrannu lwfansau allyriadau (a ddiffinnir drwy gyfeirio at gynllun masnachu sy'n cyfyngu ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â nwyon tŷ gwydr, o dan Ddeddf y Newid yn yr Hinsawdd 2008) yn gyfnewid am dâl.

8. Mae cymal 93(2) yn dweud y caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 93(1) ddarparu:
    - ar gyfer dyrannu lwfansau yn gyfnewid am dâl i bersonau heblaw'r rheini sy'n cymryd rhan mewn cynllun masnachu;
    - ar gyfer gosod ffioedd, a gwneud a fforffedu blaendaliadau;
    - ar gyfer pwy y ceir dyrannu lwfans iddynt yn gyfnewid am dâl;
    - i ddyraniadau yn gyfnewid am dâl gael eu goruchwylio gan berson annibynnol, a benodir gan Drysorlys EM;
    - ar gyfer gosod cosbau am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau, neu gyda chynllun cymal 93(3);
    - ar gyfer gosod llog mewn perthynas â thaliadau, ffioedd neu gosbau o dan y rheoliadau;
    - ar gyfer adennill taliadau, ffioedd neu gosbau neu log sy'n ddyledus o dan y rheoliadau;
    - ar gyfer rhoi hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir wrth ddyrannu lwfansau yn gyfnewid am dâl, yn erbyn fforffedu blaendaliadau, ac yn erbyn gosod cosbau (gan gynnwys pennu pwy fydd yn gwrando ar apeliadau o'r fath).

9. Mae cymal 93(3) yn caniatáu i Drysorlys EM lunio cynlluniau ynghylch sut i ddyrannu lwfansau am dâl ac ynghylch telerau ar gyfer gwneud hynny, ac yn dweud y bydd cynlluniau o'r fath yn cael effaith yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan gymal 93(1). Mae cymal 93(4) yn caniatáu i gynlluniau o'r fath ddarparu ar gyfer:
    - pwy a gaiff fod yn rhan o gynlluniau dyrannu yn gyfnewid am dâl;
    - y lwfansau sydd i'w dyrannu;
    - ble a phryd y dylid dyrannu.

10. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn berthnasol i ddiogelu'r amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cyllid**

11. Ar hyn o bryd, mae'r rheini sy'n allyrru'r rhan fwyaf o nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn rhan o System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd ("EU ETS"). Bydd angen polisi yn lle'r system honno yn y Deyrnas Unedig ar ôl i'r cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ddod i ben. Yn 2018, aeth Llywodraeth Cymru ati ar y cyd â Llywodraethau eraill cenhedloedd y DU i ymgynghori ar Gynllun Masnachu Allyriadau ar gyfer y DU, sef cynllun domestig ar draws y DU yn lle'r EU ETS.

12. Mae darpariaethau yn Neddf y Newid yn yr Hinsawdd 2008 ar gyfer sefydlu cynllun masnachu allyriadau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth ynghylch arwerthu lwfansau yn gyfnewid am dâl. Fel arfer, arwerthiannau yw'r brif ffordd o bennu pris carbon mewn cynllun masnachu. Mae sefydlu proses arwerthu sy'n agored i'r rheini yng

Nghymru sy’n rhan o’r cynllun yn golygu y bydd yr un lwfansau ar gael iddynt hwy ag i’r rheini mewn mannau eraill o’r Deyrnas Unedig sy’n rhan o’r cynllun, ac y bydd yr un taliadau a chostau yn gymwys iddynt.

13. Er mwyn osgoi bwlch o ran polisi, mae’n hanfodol bod system masnachu allyriadau a fydd yn gweithio, ac a fydd yn cynnwys arwerthu lwfansau, yn dod i rym o’r diwrnod cyntaf ar ôl y cyfnod pontio. O gofio mai’r bwriad yw defnyddio arwerthiannau yng nghyd-destun fframwaith ar gyfer y DU gyfan ac iddo reolau cyffredin ar gyfer pawb ar draws y DU a fydd yn rhan o’r cynllun, mae’n briodol bod y darpariaethau hyn yn cael eu gwneud mewn Bil ar lefel y DU. Hefyd, o ystyried nad oes fawr o amser ar gael i gyflwyno deddfwriaeth a bod gofyn i’r ddeddfwriaeth ddod i rym ar yr un pryd ym mhob un o bedair cenedl y DU, y ffordd fwyaf ymarferol o weithredu yw cynnwys darpariaethau mewn un Bil ar lefel y DU.

**Goblygiadau ariannol**

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol os bydd y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i’r darpariaethau fod yn gymwys i Gymru.

**Casgliad**

15. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar lefel y DU oherwydd bod angen proses arwerthu gyffredin ar draws y DU ar gyfer cynllun masnachu allyriadau ar draws y DU. Hefyd, mae angen i’r darpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU, ac oherwydd bod angen gweithredu ar fyrder, nid oes amser i gyflwyno Bil yng Nghymru.

**Lesley Griffiths AS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Mai 2020**